# Cynllun Toiledau Cymunedol
# Ffurflen Gais

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Enw | | | | |
| Enw Busnes (os yw'n wahanol i'r uchod) | | | | |
| Cyfeiriad | | | | |
| Ebost | | | | |
| Rhif ffôn | | | | |
| Nifer a math y toiledau fydd yn mynd ar gael drwy'r cynllun | Dynion | Merched | Neillryw | Anabl |
| | | | | |
| A oes cyfleusterau newid cewynnau yno? | | | | |
| Oriau'r Busnes | Dydd Llun | | | |
| | Dydd Mawrth | | | |
| | Dydd Mercher | | | |
| | Dydd Iau | | | |
| | Dydd Gwener | | | |
| | Dydd Sadwrn | | | |
| | Dydd Sul | | | |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Partneriaeth gyda darparwyr gwasanaeth lleol yw'r Cynllun Toiledau Cymunedol. Mae'n galluogi busnesau lleol fel tafarndai, bwytai a siopau, i gydweithio â'r Cyngor er mwyn sicrhau bod toiledau mwy glân, diogel a hygyrch ar gael i'r cyhoedd. Bydd y cynllun yn cael ei redeg gan Adran Gwasanaethau Gwastraff a’r Amgylchedd y Cyngor.

Bydd y cyhoedd yn gallu defnyddio'r toiledau yn ystod yr oriau y bydd y safle'n agored ac ni fydd angen iddynt brynu unrhyw beth.

Rhaid i bob safle sy'n cymryd rhan yn y cynllun fod â digon o Yswiriant Atebolrwydd i'r Cyhoedd (yn unol â'r hyn a bennir gan y Cyngor o dro i dro).
Bydd rhaid cael copi o dystysgrif yswiriant ddilys gan bob ymgeisydd.

Bydd y safleoedd sy'n cymryd rhan yn rhoi arwydd yn eu ffenestr. Bydd swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin yn trefnu'r arwyddion cyn pennu dyddiad dechrau swyddogol.

Gall unrhyw ddarparwr sydd â diddordeb wneud cais i'r Cyngor am gael eu cynnwys ar y cynllun. Yn gyntaf bydd y cais yn cael ei ystyried ar sail ei leoliad a pha ddarpariaeth leol sy'n bod eisoes. Os yw'n briodol, yna bydd y safle'n cael ei asesu gan Swyddog y Cyngor ac os yw'n addas bydd cynnig ariannol yn cael ei wneud yn dibynnu ar nifer, safon a mathau'r cyfleusterau sydd ar gael a'r oriau agor.

Ni fydd y taliad mwyaf yn fwy na £500 y flwyddyn. Os bydd darparwr yn llwyddo i gael ei gynnwys ar y cynllun yna bydd taliad yn cael ei wneud unwaith y flwyddyn ar ôl cyfnod o dri mis.

Bydd Cytundeb yn cael ei lofnodi gan y darparwr a'r Cyngor i sefydlu'r Bartneriaeth yn ffurfiol. Bydd y cytundeb am gyfnod o flwyddyn, gyda'r dewis i'w ymestyn yn flynyddol. Gellir tynnu'n ôl o'r cynllun ar unrhyw adeg drwy roi mis o rybudd ysgrifenedig.

Bydd y safle'n cael ei archwilio fel mater o drefn o leiaf bob tri mis.

*Cadarnhaf fy mod i/bod fy musnes yn dymuno cael fy/ei ystyried ar gyfer cymryd rhan yng Nghynllun Toiledau Cymunedol Sir Gaerfyrddin.*

*Llofnod .......................................* *Dyddiad…………………………….............*

*A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen hon i sylw:*

*E-bost: DPIMunicipalservices@sirgar.gov.uk*

*Ffôn 01267 224542*